

Stondin Sam

ENGLAND EXPECTS

Pleidleisiwch i New *Labour*! Mae'n Bomiau Ni Yn Luch!

Mae'n *anodd* meddwl am slogan fwy *addas* na honna i'r etholiad cyffredinol sydd ar ein gwarthaf breintiedig. Yr hyn sy'n ei gwneud mor *addas* ydi mai un o weinidogion New *Labour* ei hun a'i bathodd, ac nid rhyw smwddi seimlyd o asiantaeth hysbysebu. *Is-weinidog* yn y Weinyddiaeth Ryfela oedd y gwrda, a daeth y *perl* gwerthfawr yna o slogan o'i enau wrth *iddo* ymateb i feirniadaeth a chroesholi ar un o raglenni newyddion y teledu pan oedd mymryn (dim llawer, wrth reswm) o helynt *ynghlyn* â'r bomiau y mae ein gwarediddiad a New *Labour* yn eu tywallt o bryd i'w gilydd ar bawb sydd ddim yn prynu *digon* o Goca-Cola. Roedd yr *is-weinidog* yn *trio* i orau *new-labourllyd* i wadu bod yr *uranium* yn y bomiau'n gwenwyno pawb a phopeth am flynyddoedd.

Ond fel y *gwyr* New *Labour*, sydd ym mhanig ei hargyfwng 'Cymreig' yn cyhuddo pobl fel Seimon Glyn o fod yn hiliol, nid *uranium* na ffrwydrion ydi prif *elfen* y bomiau y mae hi mor hoff ac addolgar ohonyn nhw. Heb hiliaeth mae'r syniad o fom yn amhosib. 'Mae New *Labour* wedi bod yn gollwng bomiau hiliaeth ar wlad *lrae* yn feunyddiol ers Rhagfyr 1998, nid *eu* gollwng ar Ddyn Drwg ond ar wlad, heb boeni'r un ffeuan pwy sy'n digwydd bod o danyn nhw. Mae presenoldeb y Dyn Drwg a'i debyg yn hanfodol i'r *gêm*.

Mi fasach feddwl y byddai plaid sy'n *casu* cymaint ar hiliaeth yn gwaredu rhag cysylltiad heb *son* am gyfeillgarwch hefo grwpiau hiliol o unrhyw fath. Un o'r cyrff mwyaf hiliol a welodd y byd erioed ydi llywodraeth Israel (ond fiw dweud hynny'n *uchel* wrth gwrs). Mae New *Labour* yn dipyn o ffrindiau hefo hi, ac mae hi hefyd yn gwsmer da, i'r Coca-Cola ac i'r pethau sy'n gwneud llawer mwy o *glee* wrth eu *hagor*.

Un o ryfeddodau credo New *Labour* yn ei *hawch* am bleidleisiau ofn a chasineb ydi fel mae'r iaith Gymaeg yn hiliol yn ei phatsh ei hun ond nad ydi'r iaith Saesneg ddim ble bynnag y mae hi. Yr esgus ydi bod y Saesneg yn iaith ryngwladol. *Wel*, ar *wahan* i *fin* leoedd fel cyfandir Ewrop a chyfandir Asia a chyfandir *Affrica* a De America a rhannau deheuol Gogledd America a lleoedd *eraill* yma a *throw*, ella'i bod hi. *A'r* cwestiwn nesa wrth gwrs ydi pam mae hi'n iaith *ryngwladol*. Dim ond hiliaeth fedr fod yn hanesyddol gyfrifol am ledaeniad iaith o un wlad i'r *llall*.

Mi *drwn* ni wneud heb New *Labour* *felly*, am y tro. Pwy arall sydd gynnon ni yn yr etholiad cyffrous o'n blaenau? Pam oedd Mr. Ieuan Wyn Jones, arweinydd Plaid Cymru, mor ffrwceslyd wrth ateb cwestiynau? gofynnodd Radio Cymru yn y car ddiwedd y mis. Am fod y boi yn rybish, atebodd y gyrrwr cyn i'r radio *nafinna* gael *cyfle* i feddwl heb son am ffurfio *damecaniaeth* nac *ateb*. Yn naturiol, mi gafodd gerydd llym am ei haerllugrwydd. Dydi o ddim *wedi cael* ei fagu i fod mor amharchus o arweinwyr mawr ein gwleidyddiaeth. Mae *holl* ieuenticid Cymru o Forgannwg i Gaerdybi i gyd yn deffro'n awr, meddai rhyw *gan fach* ddiniwed o ganol y chwedegau. Ella bod rhai ohonyn nhw *wedi* gorddeffro.

* * *

Mae'n *anodd* meddwl am fwy o fraint na *chael* peidio â phrynu *ticad* y twyll a elwir yn Loteri Cenedlaethol. Mae'n ddigon hysbys *mai* rhyfel ydi'r dull gorau a ddyfeisiwyd erioed i drosglwyddo cyfoeth o'r tlawd i'r cyfoethog, ond mae'r loteri'n prysur ddod yn ail *er-nod* oes ganddo, yn naturiol, obaith *mul* o ddod o fewn cyrraedd.

Does dim angen rheswm nac esgus nac ymddiheuriad am beidio â syrthio i'r trap a phrynu'r nialwch *felly*, ond mi gafwyd un da a Chymreig *iawn* yn ddiweddar tasai'i angen o, Mae Gwyneth Lewis, sydd, meddir, yn fardd, *wedi cael* dros ddeng mil a thrigain o bunnau gan y Loteri Cenedlaethol i fynd o amgylch y byd i sgwennu ei barddoniaeth. *Allelujah* dyn bobllujah.